Rhif: **WG15008**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion

# Cynigion ar gyfer Deddfwriaeth ar Roi Organau a Meinweoedd

Dyddiad cyhoeddi: **8 Mawrth 2012**

ISBN 978 0 7504 7231 6
© Hawlfraint y Goron 2012
WG15008

# Cynnwys


Cyflwyniad 1

Y Camau Nesaf 1

Trosolwg 2

Rhan 1 – Cwestiynau 1 i 8 yn y Papur Gwyn

Cwestiwn 1: Mae'r Papur Gwyn yn nodi y dylai unigolion fod wedi byw yng Nghymru am gyfnod digonol o amser cyn cael eu cynnwys yn y system feddal o optio allan. 5

a. Pa ffactorau ddylid eu hystyried wrth benderfynu a yw unigolyn yn 'byw yng Nghymru'? 5

b. Beth ddylai'r cyfnod o amser fod? 5

Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno y bydd trafodaethau rhwng clinigwyr a'r teulu ar ôl marwolaeth unigolyn, yn nodi ac yn diogelu'r rhai heb alluedd? 7

Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno y dylai'r system feddal o optio allan ar gyfer Cymru fod yn berthnasol i bobl sy'n 18 oed ac yn hŷn yn unig? Os nad ydych, pam? 8

Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno y dylai'r Gofrestr Rhoddwyr Organau gyfredol barhau ar y cyd â'r system feddal o optio allan? 9

Cwestiwn 5: O ran yr opsiynau cadw cofnodion ar gyfer y system feddal o optio allan - 11

a. Pa un o'r opsiynau ydych chi'n ei ffafrio? 11

b. Yn eich barn chi, oes yna unrhyw opsiynau eraill fyddai'n sicrhau system effeithiol a diogel? 11

Rhan a 11

Rhan b 13

Cwestiwn 6: Pa rôl ddylai'r teulu ei chael o ran diogelu dymuniadau'r sawl a fu farw? 14

Cwestiwn 7: Sut gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr ymgyrch gyhoeddusrwydd yn effeithiol? 15

| | | |
|---|---|---|
| Cwestiwn 8: | Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu eich sylwadau ar effeithiau posibl y system feddal arfaethedig o optio allan ar y Gymraeg, hil, ffydd, anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, rhywedd, ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil | 19 |
| Rhan 2 – | Cwestiwn 9 yn y Papur Gwyn a sylwadau eraill a gyflwynwyd | 22 |
| Rhan 3 – | Crynodeb o'r cwestiynau a ofynnwyd mewn cyfarfodydd cyhoeddus | 26 |
| Atodiad A – | Rhestr o Ymatebion i'r Ymgynghoriad | 33 |
| Atodiad B – | Rhestr o'r Cyfarfodydd Cyhoeddus | 34 |
| Atodiad C - | Cyhoeddusrwydd i Ddigwyddiadau Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Papur Gwyn ar Roi Organau | 35 |
| Atodiad Ch – | Rhestr o'r Sefydliadau a gafodd eu hysbysu am yr Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn | 40 |

# Cyflwyniad

Cyhoeddwyd Papur Gwyn Llywodraeth Cymru "Cynigion ar gyfer Deddfwriaeth ar Roi Organau a Meinweoedd" ar 7 Tachwedd 2011, gan agor ymgynghoriad deuddeg wythnos.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 31 Ionawr 2012. Cafwyd cyfanswm o 1,234 o ymatebion. Mae'r ddogfen ymgynghori yn gofyn 9 cwestiwn, ac roedd cwestiwn 9 ar ffurf gwahoddiad agored i wneud unrhyw sylwadau cysylltiedig nas cwmpaswyd yn y cwestiynau eraill.

Ar gyfer pob ymateb anfonwyd llythyr cydnabod safonol yn cadarnhau y câi'r ymateb ei gyhoeddi ynghyd â manylion yr ymatebydd oni chysylltir â Llywodraeth Cymru i wneud cais i'r ymateb gael ei gyhoeddi'n ddienw. Ceir rhestr gyflawn o'r ymatebwyr yn Atodiad A, ond ni ddatgelir manylion ymatebwyr os nad oeddent yn dymuno cael eu henwi.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori trefnodd Llywodraeth Cymru 13 o gyfarfodydd cyhoeddus ledled Cymru. Ceir dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd hyn yn Atodiad B. Daeth cyfanswm o 166 o bobl i'r cyfarfodydd hyn. Hefyd, cynhaliwyd wyth cyfarfod â grwpiau rhanddeiliaid allweddol.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion i bob un o gwestiynau'r ddogfen ymgynghori, ac yn cynnwys dadansoddiad o'r themâu a godwyd nad oeddent yn cyfeirio at ein cwestiynau. Mae hefyd yn crynhoi'r trafodaethau yn y cyfarfodydd cyhoeddus.

### Y Camau Nesaf

Ym mis Mehefin 2012, byddwn yn cyhoeddi Bil drafft ac yn ymgynghori yn ei gylch, ynghyd â Memorandwm Esboniadol drafft. Bydd y Memorandwm Esboniadol yn esbonio cynnwys y Bil a hefyd yn nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymateb i'r safbwyntiau a grynhoir yma. Byddwn yn cynnal ymgynghoriad ar y Bil drafft dros gyfnod o ddeuddeg wythnos.

## Trosolwg

Cyhoeddwyd Papur Gwyn Llywodraeth Cymru "Cynigion ar gyfer Deddfwriaeth ar Roi Organau a Meinweoedd" ar 7 Tachwedd 2011, gan agor cyfnod ymgynghori o ddeuddeg wythnos a ddaeth i ben ar 31 Ionawr 2012. Cyhoeddwyd fersiwn Hawdd ei Darllen, wedi'i hanelu at bobl ag Anableddau Dysgu, ar 15 Rhagfyr 2011.

Siaradodd y Prif Weinidog a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn digwyddiad i lansio'r ymgynghoriad ar 8 Tachwedd 2011, a gynhaliwyd yn Uned yr Arennau, Ysbyty Athrofaol Cymru. Ar adeg ei gyhoeddi cafodd y Papur Gwyn gryn sylw yn y cyfryngau, gan gynnwys sylw ar raglenni newyddion y DU.

Yn ystod yr wythnos yn union ar ôl iddo gael ei gyhoeddi, cafodd y Papur Gwyn sylw yn y wasg Gymreig a Phrydeinig. Wrth i'r cyfnod ymgynghori fynd yn ei flaen, dechreuodd y wasg ranbarthol a chenedlaethol ganolbwyntio ar y cyfarfodydd cyhoeddus gan arwain at ddarllediad byw ar BBC Wales Today o'r cyfarfod yn Abertawe ar ddiwedd mis Ionawr. Roedd y mater nid yn unig wedi denu sylw'r cyfryngau, ond mynegodd Syr Richard Branson ei gefnogaeth ar wefan cyfrwng cymdeithasol Twitter. Sbardunodd hyn fwy o sylw yn y cyfryngau, gan gynnwys stori ar dudalen flaen y Western Mail ar 20 Rhagfyr 2011.

Dengys Atodiad C y camau gweithredu a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad a'r cyfarfodydd cyhoeddus.

Yn ogystal â'r lansiad a'r sylw cysylltiedig yn y cyfryngau, anfonwyd negeseuon e-bost at nifer fawr o'r rhai â diddordeb er mwyn tynnu eu sylw at yr ymgynghoriad. Ceir rhestr o'r sefydliadau a gafodd y neges e-bost hon yn Atodiad Ch.

Roedd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cynnwys sefydliadu ac unigolion, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Sefydliadau iechyd | 33 |
| Unigolion yn nodi diddordeb mewn iechyd (ee meddyg teulu) | 14 |
| Buddiannau gwleidyddol: ee cynghorau tref, AS | 14 |
| Buddiannau crefyddol, dyngarol neu foesegol | 14 |
| Mudiadau yn y sector gwirfoddol | 9 |
| Cyrff academaidd | 4 |
| Comisiynwyr Statudol | 2 |
| | |
| Unigolion nas dosbarthwyd fel arall | 1,144 |

Mae'r Papur Gwyn yn gweithredu ar ymrwymiad maniffesto i gyflwyno deddfwriaeth ar system feddal o optio allan o ran rhoi organau. O gofio'r gefnogaeth a ddangosodd y cyhoedd yng Nghymru o blaid newid y gyfraith mewn ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2008-9, gofynnodd y Papur Gwyn gwestiynau ynglŷn â'r trefniadau i sicrhau bod y system yn gweithio. Ni ofynnwyd yn benodol i ymatebwyr nodi p'un a oeddent yn cefnogi'r cynigion ai peidio. Fodd bynnag, nododd 91% **(1,124)** o'r ymatebion a ddaeth i law farn gyffredinol, gyda 52% **(642)** o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion a 39% **(482)** yn eu gwrthwynebu.

Cyflwynwyd ymatebion mewn sawl ffordd wahanol; er i 376 ddefnyddio'r ffurflen a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, a defnyddiodd un ymatebwr fersiwn Hawdd ei Darllen y ffurflen, cyflwynwyd eraill ar ffurf llythyrau lle roedd ymatebwyr yn gwneud pwyntiau yn eu ffordd eu hunain. Roedd rhai o'r cyflwyniadau hyn yn go hirfaith. Darparodd un ymatebydd, Cartrefi Cymru, DVD o sesiwn wedi'i hwyluso gyda rhai o'u tenantiaid ag anableddau dysgu yn trafod y cynigion. Roedd 485 o ymatebion ar ffurf llythyr safonol a ddosbarthwyd gan ymgyrch Opt for Life, sef cynghrair o elusennau sy'n cefnogi'r cynigion. Roedd 35 o ymatebion eraill ar ffurf e-bost safonol a ddosbarthwyd gan Sefydliad Prydeinig y Galon. Ceir testun y rhain yn Rhan 2 o'r adroddiad hwn. Cyflwynodd Eglwys y Bedyddwyr Albany Road yng Nghaerdydd ddeiseb o 45 o enwau o blaid y cynigion - rydym wedi ei gyfrif yn un ymateb.

Yn y crynodebau a ganlyn, rhoddwyd yr un pwysoliad i bob un o'r ymatebion safonol hyn ag ymatebion unigol eraill. Er enghraifft, mae llythyr ymgyrch Opt for Life yn cefnogi opsiwn C o blith yr opsiynau ar gyfer cofrestr, felly mae pob llythyr o'r fath wedi'i gynnwys yn y cyfanswm sy'n cefnogi opsiwn C o dan Gwestiwn 5.

Cynhaliwyd 13 o gyfarfodydd cyhoeddus, wedi'u trefnu ar y cyd â'r Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru.

Bu'r trafodaethau yn y cyfarfodydd cyhoeddus yn fodd i esbonio'r broses gyfredol, ateb cwestiynau ynghylch sut y byddai'r cynnig yn gweithio, a rhoi cyfle i bobl esbonio pam roeddent yn cefnogi neu'n gwrthwynebu'r ddeddfwriaeth.

Cynhaliwyd wyth cyfarfod gyda rhanddeiliaid allweddol yn ystod y cyfnod ymgynghori fel a ganlyn: tri chyfarfod â'r GIG yng Nghymru a chyfarfodydd gyda Nyrsys Arbenigol ac Arweinwyr Clinigol ar Roi Organau, Cyrff Proffesiynol, y Sector Gwirfoddol a chyda grwpiau ffydd. Bu trafodaethau gyda rhanddeiliaid yn canolbwyntio ar y cyfan ar y materion ymarferol sy'n gysylltiedig â gweithredu'r polisi megis:

- Yr angen am eglurder ynglŷn â rôl y teulu a'r angen i sicrhau bod budd y sawl a fu farw a'r teulu yn parhau i fod wrth wraidd y cynigion;
- Pennu preswyliaeth yng Nghymru;
- Adnoddau gofal critigol.

Cyfarfu'r Grŵp Cyfeirio Arbenigol a sefydlwyd i lywio syniadau Llywodraeth Cymru ar bolisi mewn perthynas â'r Bil Rhoi Organau a Meinweoedd yn ystod y cyfnod ymgynghori hefyd.

Hefyd, cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru â swyddfa Comisiynydd Plant Cymru; rhanbarth Casnewydd a Sir Fynwy Un Llais Cymru; grŵp o glinigwyr ym Mwrdd Iechyd Hywel Dda; a siaradwyd â Shelter Cymru i ystyried goblygiadau'r polisi i bobl ddigartref. Yn fuan ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben trafodwyd y cynigion gydag Uwch-Gyngor y Ddraig Ffynci, sy'n cynrychioli pobl ifanc yng Nghymru.

Mae gweddill y ddogfen hon wedi'i rhannu'n dair rhan:

Mae Rhan 1 yn crynhoi'r ymatebion i bob un o gwestiynau'r ddogfen ymgynghori, ar wahân i gwestiwn 9 a ofynnodd i'r ymatebydd a oedd yn dymuno codi unrhyw faterion nas cwmpaswyd yn y cwestiynau eraill. Mae'r crynodebau hyn yn ystyried pwyntiau a gyflwynwyd mewn perthynas â phob cwestiwn p'un a ddefnyddiwyd y ffurflen ymgynghori ai peidio. Er enghraifft, os ymatebodd rhywun drwy lythyr a gododd fater a oedd yn ymwneud â rôl y teulu, mae wedi'i hystyried yn y crynodeb o ymatebion i gwestiwn 6 sy'n ymwneud â rôl y teulu.

Mae Rhan 2 yn crynhoi'r pwyntiau a wnaed mewn ymatebion ysgrifenedig nad oeddent yn ymwneud â chwestiynau'r ymgynghoriad neu a oedd mewn ymateb i gwestiwn 9 ar y ffurflen.

Mae Rhan 3 yn crynhoi'r pwyntiau a wnaed a'r cwestiynau a ofynnwyd yn y 13 cyfarfod cyhoeddus.

Yn anochel, o grynhoi cynifer o ymatebion nid oes modd cyfleu'n gywir bob mater a godwyd yn ysgrifenedig neu mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Ac ni ellir dehongli'r ymatebion fel sampl gynrychioliadol o farn y cyhoedd ychwaith. Fodd bynnag, rydym wedi croesawu pob cyfraniad a wnaed, ei ddarllen a'i ystyried wrth ddatblygu'r polisi ymhellach.

Yn fuan ar ôl i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi byddwn yn cyhoeddi'n llawn yr holl ymatebion ysgrifenedig a ddaeth i law, gan sicrhau na ddatgelir manylion ymatebwyr os nad oeddent yn dymuno cael eu henwi.

## Rhan 1 – Cwestiynau 1 i 8 yn y Papur Gwyn

### *Cwestiwn 1: Mae'r Papur Gwyn yn nodi y dylai unigolion fod wedi byw yng Nghymru am gyfnod digonol o amser cyn cael eu cynnwys yn y system feddal o optio allan.*

***a) Pa ffactorau ddylid eu hystyried wrth benderfynu a yw unigolyn yn 'byw yng Nghymru'?***

***b) Beth ddylai'r cyfnod o amser fod?***

Cafwyd 314 (25%) o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Er bod yr ymatebion i ran a) yn amrywio, daeth nifer o ymatebion cyffredin i'r amlwg. Gwnaeth rhai ymatebwyr sawl awgrym.

Y prif ffactor yr awgrymwyd y dylid ei ystyried oedd prif gyfeiriad a chyfeiriad parhaol yr unigolyn, ac a oedd hwnnw yng Nghymru. Gellid defnyddio'r cod post i gadarnhau hyn. Roedd 129 o ymatebion yn cynnig rhywbeth tebyg i hyn.

Y prif ffactorau eraill a grybwyllwyd oedd a oedd unigolyn wedi'i gofnodi ar gofrestr yr etholwyr (76 o ymatebion) neu a oedd wedi'i gofrestru â meddyg teulu yng Nghymru (40 o ymatebion).

Syniadau eraill a gododd mewn mwy na phum ymateb oedd:

- Gwrthod ateb y cwestiwn oherwydd gwrthwynebiad i'r cynigion **(31)**
- A oedd wedi'i gofrestru ar gyfer y Dreth Gyngor **(27)**
- A oedd wedi'i gyflogi yng Nghymru **(16)**
- Preswyliaeth yn rhywbeth anymarferol neu rhy anodd i'w gadarnhau **(15)**
- Am faint mae unigolyn wedi byw yng Nghymru **(14)**
- Dylai myfyrwyr o'r tu allan i Gymru gael eu heithrio **(10)**
- Yn cael budd-daliadau neu addysg lawn amser yng Nghymru **(10)**
- Dylai fod cyfnod cymhwyso ar gyfer pennu preswyliaeth **(8)**
- Ble mae rhywun yn byw fel arfer **(7)**
- Defnyddio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru / presgripsiynau am ddim **(6)**

Roedd atebion i ran b) fel arfer yn cynnig cyfnod penodol, fel y gofynnwyd yn y cwestiwn.

Mae'r canlynol yn dangos pa mor boblogaidd yw'r gwahanol gyfnodau, gan gymryd awgrymiadau a wnaed gan fwy na phump o ymatebwyr:

- Cyn gynted ag y daw'n drigolyn - **17**
- Cyn gynted ag yr ymddengys ar gofrestr yr etholwyr - **14**
- 3 mis - **6**
- 6 mis - **17**
- 12 mis - **42**
- 2 flynedd - **31**
- 3 blynedd - **25**
- 5 mlynedd - **27**
- 10 mlynedd - **13**

Nododd 24 o ymatebwyr a atebodd y rhan hon o'r cwestiwn fod y cwestiwn, yn eu barn hwy, yn dangos pa mor anymarferol oedd y cynnig neu nodwyd iddynt wrthod ateb y cwestiwn am eu bod yn gwrthwynebu'r polisi.

Awgrymodd llythyr safonol Opt for Life a anfonwyd gan 485 o ymatebwyr y dylai pob un sy'n byw yng Nghymru gael ei gynnwys, gan awgrymu o bosibl na ddylai fod cyfnod cymhwyso, ym marn yr ymatebwyr hyn.

## *Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno y bydd trafodaethau rhwng clinigwyr a'r teulu, ar ôl marwolaeth unigolyn, yn nodi ac yn diogelu'r rhai heb alluedd?*

O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn:

> atebodd 196 "Ydw"
> atebodd 134 "Nac ydw"
> atebodd 14 "Ydw ac Nac ydw" neu rhoddwyd sylwadau heb nodi ateb "ydw" neu "nac ydw".

O blith y rhai a roddodd ateb "ydw" neu "nac ydw" gwnaeth llawer ohonynt sylwadau hefyd.

Roedd y sylwadau ar y cwestiwn hwn yn eang iawn eu cwmpas ac yn ystyriol iawn ac ni ellir gwneud cyfiawnder â llawer o ohonynt mewn crynodeb. Fodd bynnag, cododd rhai themâu cyffredin.

O'r rhai a atebodd "ydw", ac a wnaeth sylwadau, esboniodd llawer (50) pam eu bod yn cefnogi'r cynnig yn y Papur Gwyn, gan nodi, er enghraifft, y byddai angen aelodau o'r teulu i fynegi dymuniadau'r bobl hynny nad oedd ganddynt alluoedd i benderfynu ynglŷn â rhoi organau ai peidio, oherwydd efallai eu bod wedi sôn am eu dymuniadau wrth rywun yn y teulu.

O'r rhai a atebodd "nac ydw", roedd nifer o sylwadau yn amau ai'r teulu oedd y bobl gywir neu a fyddai'r teulu yn gwybod beth oedd dymuniadau'r sawl a fu farw (34 o ymatebion); rhoi pwysau ar y teulu mewn cyfnod anodd (28 o ymatebion); ac roedd rhai ymatebion yn amau cymhellion posibl clinigwyr mewn sgwrs o'r fath (22 o ymatebion). Adleisiwyd y pryderon hyn gan rai ymatebwyr a atebodd "ydw" i'r cwestiwn hwn.

Y themâu eraill a gododd mewn mwy na phum ymateb oedd:

- Holi beth sy'n digwydd os nad oes teulu gan y sawl a fu farw **(7)**
- Mae'r cwestiwn yn atgyfnerthu'r gwrthwynebiad i'r cynigion **(14)**
- Nid yw'r dull gweithredu arfaethedig yn gyson ag arfer da o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 **(10)**
- Mae system optio allan yn amhriodol i bobl nad ydynt yn meddu ar alluedd meddyliol **(11)**
- Cytuno â'r mesur diogelwch a gynigiwyd ond yn gwrthwynebu'r system optio allan **(10)**

## *Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno y dylai'r system feddal o optio allan ar gyfer Cymru fod yn berthnasol i bobl sy'n 18 oed ac yn hŷn yn unig? Os nad ydych, pam?*

O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn:

atebodd 166 "Ydw"
atebodd 165 "Nac ydw"
atebodd 1 "yn fwy na thebyg", atebodd 1 "dim barn bendant" ac
atebodd 1 "cwestiwn cwbl amherthnasol"

Gwnaed sylwadau gan tua 18% **(219)** o'r ymatebwyr.

*Anghytuno ag egwyddor system feddal o optio allan*

Manteisiodd cyfran sylweddol o'r rhai a wnaeth sylwadau (tua 52% **115**) ar yr ateb i nodi eu bod yn anghytuno ag egwyddor y polisi gan fynegi'r farn y dylai plant gael eu "diogelu" rhag y syniad hwn. Teimlai'r grŵp hwn hefyd y dylai penderfyniad i roi organau bob amser fod yn amodol ar gydsyniad rhiant neu y dylai trefniadau presennol y Gofrestr Rhoddwyr Organau barhau.

*Y rhai o blaid terfyn o dan 18 oed*

Teimlai cyfran gymharol fawr o'r rhai a wnaeth sylwadau (tua 29% **63**) y gallai pobl o dan 18 oed wneud penderfyniadau ynglŷn â rhoi organau ac y dylid caniatáu iddynt fynegi dymuniad mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Teimlai tua hanner y grŵp hwn y dylai'r trefniadau fod yn gymwys i bawb, o bob oedran, yn amodol ar gamau diogelu priodol, megis bod rhieni yn gallu cytuno i'w plant optio allan. Teimlai tua 36% o'r grŵp hwn y dylai'r system feddal o optio allan fod yn gymwys i bobl ifanc o 16 oed ymlaen am eu bod yn teimlo y gall pobl o'r oedran hwnnw ddeall y materion yn llawn a gwneud eu penderfyniadau eu hunain.

*Y rhai a oedd o blaid terfyn o 18 oed neu drosodd*

Teimlai tua 17% **(32)** o bobl a wnaeth sylwadau y dylai'r system fod yn gymwys i'r rhai 18 oed a throsodd, yn gysylltiedig â'r oedran pleidleisio neu oedran cyfrifoldeb cyfreithiol neu hyd yn oed y dylai ddechrau ar 18 oed a chael ei adolygu wrth i'r system ymsefydlu.

## *Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno y dylai'r Gofrestr Rhoddwyr Organau gyfredol barhau ar y cyd â'r system feddal o optio allan?*

Ar y cyfan, roedd atebion i'r cwestiwn hwn yn nodi dewis syml rhwng Ydw, Nac ydw, neu ddim ymateb gyda sylwadau ychwanegol. Atododd rhai ymatebwyr sylwadau i'w hatebion er mwyn dangos pa mor gryf oedd eu teimladau ynglŷn â'r mater; roedd eraill yn ansicr, gan nodi hynny yn eu hymateb.

O'r rhai a ymatebodd:

atebodd 208 "Ydw"
atebodd 117 "Nac ydw"
atebodd 2 "Ydw, - yn gryf", atebodd 1 "Ydw, yn fwy na thebyg" ac
atebodd 1 "cwestiwn cwbl amherthnasol"

Roedd 327 (26.5%) o ymatebwyr wedi cynnwys ateb i'r cwestiwn hwn.

*Anghytuno ag egwyddor system feddal o optio allan*

Manteisiodd cyfran sylweddol o'r rhai a wnaeth sylwadau (31% **103**) ar y cwestiwn i nodi eu bod yn anghytuno ag egwyddor y polisi. Gofynnodd dros hanner o'r rhain **(57)** yn benodol am i'r trefniadau presennol barhau heb gofrestr ychwanegol.

*Y rhai o blaid cadw'r Gofrestr Rhoddwyr Organau*

Roedd y mwyafrif o ymatebwyr (65%, **210**) a atebodd y cwestiwn o blaid cadw'r Gofrestr Rhoddwyr Organau bresennol ochr yn ochr â'r gofrestr newydd. Y prif resymau a nodwyd dros gadw'r gofrestr oedd:

- Pe bai rhywun o weddill y DU yn marw yng Nghymru, yna byddai'n bosibl gweithredu yn unol â'u dymuniadau o hyd (**24**)
- Cadarnhau dymuniadau rhywun ei fod am roi organau **(23)**
- Pe bai rhywun o Gymru yn marw yn Lloegr, yr Alban neu Iwerddon, byddai'n bosibl cydnabod eu dymuniadau o hyd **(8)**
- Rhoi cyfle i'r rhai o dan yr oedran optio allan gofnodi eu dymuniadau a bod rhan yn y broses **(6)**

*O blaid un gofrestr optio allan*

Roedd lleiafrif bach **(18)** o blaid dod â'r gofrestr bresennol i ben yng Nghymru gan eu bod yn teimlo y byddai'r gofrestr Optio Allan yn golygu na fyddai ei hangen mwyach. Nododd rhai **(7)** ymatebwyr y dylid diddymu'r Gofrestr Rhoddwyr Organau bresennol yn raddol dros gyfnod.

### ***Pryderon***

Manteisiodd rhai ymatebwyr **(28)** ar y cwestiwn i godi pryderon ynglŷn â dryswch posibl, biwrocratiaeth ychwanegol, neu anghywirdeb o ganlyniad i weinyddu dwy gofrestr.

Holodd ymatebwyr eraill **(9)** ynghylch costau system optio allan.

### ***Rôl y Teulu***

Nododd nifer fach o'r ymatebwyr **(6)** na ddylai'r teulu ddiystyru dymuniadau'r sawl a fu farw ac y dylai dymuniadau'r sawl a fu farw fod yn drech.

## *Cwestiwn 5: O ran yr opsiynau cadw cofnodion ar gyfer y system feddal o optio allan –*

> ***a) Pa un o’r opsiynau ydych chi’n ei ffafrio?***
>
> ***b) Yn eich barn chi, oes yna unrhyw opsiynau eraill fyddai’n sicrhau system effeithiol a diogel?***

Roedd 689 (56%) o'r ymatebion ysgrifenedig yn cynnwys ateb i ran a) o'r cwestiwn hwn.
Roedd 178 (14%) o'r ymatebion ysgrifenedig yn cynnwys ateb i ran b) o'r cwestiwn hwn.

### Rhan a)

Roedd y rhan fwyaf o atebion i ran a) ond yn cofnodi dewis rhwng yr opsiynau a gyflwynwyd.

Sef:

> Opsiwn A – cofrestr i Gymru o’r bobl sydd heb wrthwynebu, a chofrestr o’r bobl sydd wedi gwrthwynebu;
>
> Opsiwn B – cofrestr i Gymru yn cynnwys dim ond y bobl sydd heb wrthwynebu;
>
> Opsiwn C - cofrestr i Gymru yn cynnwys dim ond y bobl sydd wedi gwrthwynebu;
>
> Opsiwn D – dim cofrestr(au), ond cofnod o wrthwynebiad yn cael ei roi i feddyg teulu’r person, a’i gadw yno.

O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn:

- cefnogodd 83 opsiwn A
- cefnogodd 23 opsiwn B
- cefnogodd 550 opsiwn C
- cefnogodd 17 opsiwn D
- cefnogodd 2 opsiwn A ac C
- cefnogodd 2 opsiwn A neu C
- cefnogodd 1 opsiwn B neu D
- cefnogodd 1 opsiwn C neu D

Dylid nodi bod pob unigolyn a lofnododd lythyr safonol ymgyrch Opt for Life yn cefnogi Opsiwn C.

Roedd y sylwadau ar ran a) yn amrywio, ond daeth nifer o themâu cyffredin i'r amlwg a manteisiodd rhai ymatebwyr ar yr adran sylwadau i esbonio beth roeddent yn ei

feddwl o'r gwahanol systemau. Nodir isod y tair thema fwyaf cyffredin a gododd ar gyfer pob opsiwn.

**Opsiwn A**

Teimlai 20 o ymatebwyr mai hwn oedd yr opsiwn gorau o ran cywirdeb ac eglurder am y byddai modd gwirio un gofrestr yn erbyn y llall er mwyn cael gwared ar ddyblygu.
Roedd 9 o ymatebwyr yn gwrthwynebu'r opsiwn hwn
Nododd 5 y byddai'n rhy fiwrocrataidd a dryslyd.

**Opsiwn B**

Dim ond nifer gymharol fach a wnaeth sylwadau ar yr opsiwn hwn (11 i gyd)
Teimlai 4 o ymatebwyr mai Opsiwn B fyddai fwyaf cydnaws â'r gofrestr Rhoddwyr Organau bresennol.
Nododd 3 o ymatebwyr y byddai'n anodd cadarnhau pwy oedd wedi optio allan.
Nododd 3 y byddai'n anodd ei weithredu ac y byddai'n achosi mwy o waith.

**Opsiwn C**

Dyma'r opsiwn mwyaf poblogaidd ymhlith ymatebwyr.
Nododd 479 o ymatebwyr mai hwn fyddai'r opsiwn gorau o ran sicrhau bod y rhai sydd wedi gwrthwynebu bod yn rhoddwr organau yn cael eu cofnodi'n ffurfiol fel y cyfryw.
Teimlai 14 mai hwn fyddai'r opsiwn lleiaf dryslyd a'r opsiwn symlaf neu fwyaf diogel.
Teimlai 6 o ymatebwyr y byddai hwn yn arwain at y rhestr leiaf ac y byddai'n haws ei reoli felly.

**Opsiwn D**

Roedd 11 o ymatebwyr yn pryderu na fyddai gwybodaeth a ddelir gan feddygon teulu ar gael ddydd a nos ac y byddai hynny yn arwain at oedi wrth ddod o hyd i'r wybodaeth am ddymuniadau'r rhoddwr.
Teimlai 6 y byddai'n anodd ei weithredu am fod angen cynnwys y meddyg teulu.
Dywedodd 3 y byddai'n opsiwn annerbyniol.

***Themâu eraill yn y sylwadau:***

O'r ymatebwyr, manteisiodd cyfran sylweddol ar yr adran hon i wrthwynebu'r cynigion cyffredinol **(43)**.

Codwyd pryderon ynglŷn â'r gallu i gadw cofrestr gywir, a'r ffaith bod angen i unrhyw system fod yn ddi-feth, yn ddiogel, yn ddibynadwy ac yn gadarn **(27)**.

Ni allai rhai o'r ymatebwyr gytuno ag unrhyw un o'r opsiynau a theimlent y dylai trefniadau'r gofrestr rhoddwyr organau bresennol barhau **(21).**

Mynegwyd pryderon y gallai cadw dwy neu fwy o gofrestrau arwain at fwy o wallau, a allai yn ei dro amharu ar ymddiriedaeth y cyhoedd **(12)**.

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn pryderu am gostau sefydlu a rhedeg system newydd **(6)**.

## Rhan b)

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn cynnig systemau amgen, tra bod eraill yn awgrymu sut y gallai'r system bresennol weithio'n well. Dyma rai ymatebion nodweddiadol a godwyd gan fwy na phump o ymatebwyr:

- Dylid defnyddio'r system bresennol gan ei bod eisoes yn gweithio ac mae gennym un o'r cyfraddau rhoi organau uchaf yn Ewrop **(10)**.
- Cynigiwyd y dylid defnyddio cofnodion meddygon neu feddygon teulu i greu ewyllysiau byw fel dewis amgen **(10)**.
- Dylid ei gwneud yn hawdd newid opsiynau a rhoi dewis ynglŷn â'r organau y dymunir eu rhoi a'r organau na ddymunir eu rhoi. Nodwyd y dylai'r gofrestr gael ei diweddaru'n rheolaidd hefyd o fewn fframwaith penodol **(10)**.
- Er mwyn darbwyllo pobl i gofrestru eu dymuniadau, dylid defnyddio rhywbeth tebyg i gofrestr yr etholwyr neu'r drefn adnewyddu trwyddedau gyrru a chynnwys amodau h.y. os na fyddwch yn cofrestru collir yr hawl i bleidleisio, neu ni chewch drwydded arall ar adeg adnewyddu **(7)**.
- Gellid defnyddio trwyddedau gyrru, contractau ffonau symudol, ceisiadau am basport, cardiau credyd, Cardiau Adnabod a ffurflenni cyfrifiad i ofyn i bobl fynegi eu dymuniadau a nodi a ydynt am ddewis optio allan **(7).**
- Fel yn achos rhan a), manteisiodd rhai o'r ymatebwyr ar y cwestiwn hwn i gofrestru gwrthwynebiad cyffredinol (**24**).
- Nid oes modd creu system TG ddiogel at y diben hwn (**18**).

## *Cwestiwn 6: Pa rôl ddylai'r teulu ei chael o ran diogelu dymuniadau'r sawl a fu farw?*

Roedd 807 (65%) o'r ymatebion yn cynnwys ateb i'r cwestiwn hwn, o ystyried bod y 485 o lythyrau Ymgyrch Opt for Life wedi ymdrin â'r mater hwn.

Yn benodol, mae'n werth nodi i lythyrau safonol cefnogwyr ymgyrch Opt for Life ddweud y "dylid rhagdybio bod trigolion Cymru yn rhoddwyr organau oni ... ellir profi bod y sawl a fu farw yn dymuno fel arall ar ôl cysylltu â pherthnasau" (h.y. gwrthodiad) ond dywedodd y llythyrau hyn hefyd y dylai fod modd i berthnasau agos wrthwynebu tynnu organau.

Defnyddiwyd y cwestiwn hwn gan tua 6 y cant **(50)** fel cyfle i anghytuno'n llwyr â'r polisi neu ddweud y dylid cadw'r system gyfredol.

### *Y teulu fel y rhai sy'n gwneud penderfyniad/gyda hawliau*

Dywedodd tua 74 y cant **(599)** o'r rhai a wnaeth sylwadau mai teuluoedd ddylai benderfynu/diogelu yn y pen draw neu eu bod yn teimlo bod barn y teulu yn bwysig iawn neu'n hollbwysig (nid ymhelaethwyd ar y pwynt hwn gan nifer fawr o ymatebwyr). Teimlai bron 83 y cant o'r grŵp hwn y dylai fod modd i'r teulu agos wrthwynebu neu nacáu cydsyniad tybiedig y sawl a fu farw.

### *Y teulu heb rôl neu rôl gyfyngedig*

Teimlai tua 72 y cant **(584)** o'r rhai a wnaeth sylwadau na ddylai fod gan y teulu unrhyw rôl neu o leiaf mai rôl gyfyngedig ddylai fod o ran penderfynu a ddylai organau gael eu rhoi ai peidio. Teimlai mwyafrif o'r grŵp hwn (**506**) mai'r unig rôl a ddylai fod gan y teulu yw cadarnhau a ydynt yn gwybod p'un a fyddai'r sawl a fu farw wedi gwrthwynebu. Roedd nifer fach, ar wahân o ymatebwyr **(6)** yn pryderu ynghylch sut y gallai perthnasau brofi, pe na bai'r sawl a fu farw wedi optio allan, nad oedd yn dymuno rhoi ei organau mewn gwirionedd, a pha fath o brawf a fyddai'n ofynnol. Gwnaeth eraill yn y grŵp hwn o ymatebwyr ddatganiadau yn awgrymu y dylid ymgynghori â theuluoedd ond nad hwy ddylai fod yn gyfrifol am y penderfyniad terfynol ac y dylid ei wneud gan ystyried budd y claf. Dywedodd ymatebion eraill y byddai'n rhaid i deuluoedd dderbyn pa gyfraith bynnag oedd mewn grym.

### *Sylwadau amrywiol*

Dywedodd ychydig o dan 3 y cant o'r rhai a wnaeth sylwadau **(22)** y gallai'r system newydd annog mwy o bobl drafod eu barn gyda'u teulu ac y byddai hyn yn helpu o ran penderfyniadau ynglŷn â rhoi organau. Dywedodd un ymatebydd y byddai system feddal o optio allan yn anochel yn golygu na fyddai teuluoedd yn cael fawr ddim dylanwad dros benderfyniadau. Mynegodd sawl ymatebydd **(10)** y farn nad teuluoedd oedd y bobl orau bob amser i benderfynu ar y cwestiynau hyn oherwydd y posibilrwydd o anghytuno/ffraeo ymhlith y teulu/gwahaniaeth barn. Teimlai nifer o bobl **(8)** fod diffyg eglurder ynghylch yr hyn a fyddai'n digwydd lle nad oes teulu gan rywun, neu lle mae'r teulu yn byw gryn bellter i ffwrdd.

## *Cwestiwn 7: Sut gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr ymgyrch gyhoeddusrwydd yn effeithiol?*

Atebwyd y cwestiwn hwn gan 308 (25%) o ymatebwyr.

Roedd yr atebion i'r cwestiwn hwn yn amrywio ac yn ymdrin â'r themâu canlynol:

- Dulliau cyfathrebu
- Negeseuon a chynnwys wrth gyfathrebu
- Cynulleidfaoedd y mae angen eu targedu
- Rhanddeiliaid y mae angen ymgysylltu â hwy
- Cyrraedd dulliau cyfathrebu
- Ymchwil a Hyfforddiant
- Materion cyfathrebu
- Ymatebion nad ydynt yn gysylltiedig â'r cwestiwn neu ymatebion aneglur

Roedd llawer o'r ymatebion yn cynnig mwy nag un awgrym a allai fod wedi cwmpasu nifer o themâu, ac felly mae'r dadansoddiad a ganlyn yn graddio awgrymiadau o ran sawl gwaith y maent yn codi drwy'r holl ymatebion i'r cwestiwn. Oni nodir fel arall, dim ond awgrymiadau a grybwyllwyd fwy na phum gwaith sydd wedi'u cynnwys yn y crynodeb.

### *Dulliau Cyfathrebu*

- Ymgyrch hysbysebu (gan gynnwys cyfeiriadau at y teledu, radio, y wasg, byrddau hysbysebu) **(71)**
- Taflenni/posteri mewn lleoliadau perthnasol (gan gynnwys meddygfeydd, ysbytai, fferyllfeydd, deintyddfeydd, archfarchnadoedd, llyfrgelloedd, adeiladau'r cyngor) **(56)**
- Dosbarthu taflenni / eu postio'n uniongyrchol i bob cartref yng Nghymru **(33)**
- Defnyddio cyfryngau cymdeithasol (Facebook, Twitter, Myspace, Bebo, Youtube, fforymau) **(30)**
- Gwaith cysylltiadau cyhoeddus rhagweithiol / adweithiol (gan gynnwys ymatebion lle y cafodd teledu, radio neu bapurau newydd eu crybwyll ond na ddefnyddiwyd y term 'hysbysebu') **(29)**
- I'w gynnwys ar gwricwlwm yr ysgol / trafodaethau mewn ysgolion **(22)**
- Cynnwys gwybodaeth yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn ar y cyd â gwybodaeth am y dreth gyngor / cofrestr yr etholwyr / y cyfrifiad neu drwy geisiadau am fudd-daliadau / P60 **(18)**

- Cyfathrebu digidol / hysbysebion ar chwilotwyr y Rhyngrwyd **(11)**
- Drwy ysgolion (gan gynnwys Cymdeithasau Rhieni ac Athrawon), wrth ymrestru â phrifysgolion neu golegau **(11)**
- Trafodaethau ar y teledu / radio neu ddadleuon gyda gweithwyr proffesiynol, y cyhoedd, elusennau a'r cyfryngau **(8)**
- Drwy geisiadau i'r DVLA am drwyddedau gyrru/adnewyddu treth ceir neu geisiadau am basport **(6)**

*Negeseuon a / neu Gynnwys wrth gyfathrebu*

Nodwyd yr atebion canlynol fel awgrymiadau ynglŷn â sut y dylid cyfathrebu neu'r negeseuon y dylid eu cynnwys:

- Yr iaith a ddefnyddir - mae angen bod yn glir ac yn dryloyw ac osgoi 'iaith y Llywodraeth' **(15)**
- Mae'n rhaid i negeseuon fod yn eglur ynglŷn â rôl y teulu - a gaiff penderfyniad y teulu ei ddiystyru. Y sefyllfa gyfreithiol o'i chymharu â'r hyn sy'n digwydd yn ymarferol **(8)**
- Mae angen i wybodaeth gyhoeddus fod yn gytbwys, yn ddiduedd ac mae angen iddi fynd i'r afael â phryderon a gwrthwynebiadau **(8)**
- Mae angen i wybodaeth fod yn onest, yn gywir ac mae angen i oblygiadau'r ddeddfwriaeth fod yn glir **(7)**
- Mae angen i'r broses o roi organau fod yn glir - mae angen i'r holl ffeithiau fod yn hysbys e.e. sut y diffinnir marwolaeth yr ymennydd, marwolaeth fel arfer mewn Uned Gofal Dwys, y rhaniad rhwng gofal clinigol a'r tîm rhoi organau **(6)**

*Cynulleidfaoedd Penodol y mae angen eu Targedu wrth Gyfathrebu*
Yn yr adran hon mae pob ymateb wedi'i restru gan gynnwys y rhai a grybwyllwyd unwaith yn unig:

- Bydd angen ymgyrch barhaus i gyrraedd y rhai sy'n symud i Gymru ar ôl i ddeddfwriaeth ddod i rym a phlant sy'n cyrraedd 18 oed **(10)**
- Grwpiau anodd eu cyrraedd **(4)**
- Grwpiau ethnig **(4)**
- Pobl anabl **(3)**
- Dylai gwybodaeth fod ar gael ym mhob fformat priodol ar gyfer pobl anabl **(4)**
- Grwpiau Ffydd **(3)**
- Y rhai nad ydynt yn siarad Saesneg ond sy'n byw/gweithio/astudio yng Nghymru **(2)**
- Carchardai / Y Gwasanaeth Prawf **(2)**

- Drwy gartrefi preswyl i'r Henoed **(2)**
- Pobl ddifater / anhrefnus **(1)**
- Pobl sydd wedi cael llai o addysg neu sy'n llai gwybodus **(1)**
- Plant a phobl ifanc – gwybodaeth sy'n briodol i oedran **(1)**
- Teuluoedd **(1)**
- Gweithwyr sy'n ddigartref **(1)**
- Diwinyddion **(1)**
- Perchnogion Cartrefi a Thenantiaid **(1)**

*Rhanddeiliaid y mae angen Ymgysylltu â hwy a / neu sy'n gallu Lledaenu Gwybodaeth*
Yn yr adran hon mae pob ymateb wedi'i restru gan gynnwys y rhai a grybwyllwyd unwaith yn unig:

- Codi ymwybyddiaeth drwy feddygon teulu drwy drafodaethau unigol gyda chleifion **(11)**
- Cyflogwyr mawr **(3)**
- Awdurdodau lleol **(2)**
- Staff derbynfa meddygon teulu sydd wedi cael hyfforddiant neu staff y GIG sy'n delio â'r cyhoedd i roi gwybod am y mater **(2)**
- Y sector cyhoeddus – hysbysu pob aelod o staff drwy slipiau cyflog **(2)**
- Y trydydd sector gan gynnwys gofalwyr **(2)**
- Gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid **(2)**
- Gweithwyr iechyd proffesiynol yn lledaenu gwybodaeth ar ôl lansiad cychwynnol **(2)**
- Cynghorau Iechyd Cymuned **(1)**
- Cynghorau cymuned **(1)**
- Sefydliadau cymunedol **(1)**
- Gwasanaethau gofal iechyd **(1)**
- Byrddau Iechyd Lleol **(1)**
- Datblygu Grŵp Rhoi Organau i Gymru i edrych ar faterion sy'n ymwneud â chyfathrebu o ran Cymru gyfan **(1)**
- Awdurdod Meinweoedd Dynol **(1)**

*Ymwybyddiaeth neu Gyrraedd Dulliau Cyfathrebu*
Mae'r ddau brif fater a ymdriniodd â'r thema hon fel a ganlyn:

- Mae angen i wybodaeth fod yn gynhwysfawr a chael ei chyfleu'n rheolaidd ar ôl yr ymgynghoriad fel y gellir gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth **(25)**
- Mae'r angen i godi ymwybyddiaeth o'r system newydd o optio allan yn gymwys i bawb, sicrhau bod pawb yn ymwybodol ac yn deall eu dewisiadau / y goblygiadau / gweithdrefnau optio allan **(11)**

***Ymchwil a Hyfforddiant***

- Defnyddio arolygon cynrychioliadol o ymwybyddiaeth y cyhoedd cyn ac ar ôl cyflwyno deddfwriaeth er mwyn mesur effaith ac effaith y ddeddfwriaeth yn ogystal â holi barn y cyhoedd yn rheolaidd **(9)**

*Ymatebion nad ydynt yn gysylltiedig ag Ymgyrch Codi Ymwybyddiaeth y Cyhoedd*

- Beirniadaeth ynghylch cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad **(35)**
- Gwrthwynebiad cyffredinol i'r ddeddfwriaeth arfaethedig **(27)**
- Dylai gwybodaeth ganolbwyntio ar hyrwyddo'r system gyfredol yn hytrach na chyflwyno'r ddeddfwriaeth **(16)**
- Dylid cynnal refferendwm neu bleidlais ar y mater **(9)**

### *Cwestiwn 8: Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu eich sylwadau ar effeithiau posibl y system feddal arfaethedig o optio allan ar y Gymraeg, hil, ffydd, anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, rhywedd, ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil.*

Roedd 235 (19%) o'r ymatebion yn cynnwys ateb i'r cwestiwn hwn.

Roedd y cwestiwn yn cynnwys 9 demograffeg bosibl a gallai ymatebwyr ychwanegu meysydd eraill nad oeddent wedi'u cwmpasu o bosibl. Mae'r 9 maes fel a ganlyn:

1. Yr Iaith Gymraeg
2. Hil
3. Ffydd
4. Anabledd
5. Oedran
6. Cyfeiriadedd Rhywiol
7. Rhywedd
8. Ailbennu rhywedd
9. Priodas neu Bartneriaeth Sifil

Roedd rhai ymatebwyr ond wedi cyfeirio at un maes, tra bod eraill wedi cyfeirio at fwy nag un maes. Ceir isod y datganiadau cyffredin ar gyfer pob un o'r meysydd ac wedyn y themâu cyffredin.

**Yr Iaith Gymraeg**

Teimlai ymatebwyr fod hyn wedi'i gwmpasu gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg **(5)**

Teimlai rhai o'r ymatebwyr na fyddai effaith yn y maes hwn **(4)**

Teimlai grŵp bach na ddylid cyfieithu i'r Gymraeg oherwydd cost a'r ffaith bod pob siaradwr Cymraeg yn gallu siarad Saesneg **(4)**

**Hil**

Teimlai rhai o'r ymatebwyr y bydd/y gallai gael effaith ar sail hil, ond ni roddwyd manylion**. (6)**

Oherwydd nifer fach y cyfraniadau gan ymatebwyr o gefndir lleiafrifoedd ethnig teimlai ymatebwyr y dylid cynyddu’r ymwybyddiaeth yn briodol mewn grwpiau penodol. **(6)**

Teimlai rhai ymatebwyr y byddai'r polisi newydd yn fuddiol i grwpiau lleiafrifol gan y byddai darpariaeth ychwanegol **(3)**

**Ffydd**

O blith yr ymatebwyr teimlai nifer sylweddol y bydd neu y gallai fod effaith ar grwpiau ffydd. **(22)**

Teimlai rhai ymatebwyr y gallai rhai teuluoedd crefyddol fod yn anfodlon os nad oedd y sawl a fu farw wedi optio allan ar sail ffydd ac y bydd y teuluoedd o bosibl yn anwybyddu dymuniadau'r sawl a fu farw ar sail ffydd. **(4)**

Teimlai ymatebwyr y bydd angen adnoddau ychwanegol a mwy o ymgysylltu â rhai grwpiau ffydd megis Mwslimiaid a Hindŵiaid o bosibl er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r ffordd y gall y polisi hwn effeithio arnynt. **(4)**

Teimlai un person nad Ffydd oedd yr ymadrodd cywir i ddisgrifio'r categori hwn. "Byddai Crefydd neu Gredoau wedi bod yn deitl gwell i gwmpasu'r rhai nad ydynt yn grefyddol.

**Anabledd**

Teimlai ymatebwyr y bydd gan y grŵp hwn ofynion ychwanegol ac efallai y bydd angen cymorth ychwanegol arnynt, a mynegwyd pryderon ynglŷn â'u gallu i ddeall y system optio allan. **(10)**

Teimlai rhai ymatebwyr fod posibilrwydd y bydd amrywiol grwpiau o bobl, h.y. gweithwyr proffesiynol meddygol, teuluoedd, ac ati, yn gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl. **(7)**

**Oedran**

Cyfeiriodd yr ymatebwyr at ddau grŵp ar y cyfan, sef yr henoed a'r rhai o dan 18 oed.

O ran yr henoed teimlai'r ymatebwyr fod angen adnoddau ychwanegol i sicrhau bod yr henoed yn ymwybodol o'r system optio allan gan nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd o bosibl. Hefyd gan eu bod yn rhan o'r boblogaeth a all fod yn agored i niwed efallai y bydd angen cymorth ychwanegol arnynt a rhoi gwybod iddynt y gallant roi organau gan nad oes terfyn oedran. **(8)**

Pan fydd plant yn cyrraedd 18, dylai gwybodaeth gael ei hanfon atynt i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r system optio allan. **(3)**

**Cyfeiriadedd Rhywiol, Rhyw ac Ailbennu Rhywedd**

Yn gyffredinol teimlai'r ymatebwyr na fyddai'r system optio allan yn cael effaith yn y maes hwn, fodd bynnag cododd un ymatebydd gwestiwn ynghylch a all dynion hoyw roi organau gan na allant roi gwaed ar hyn o bryd.

## Priodas neu Bartneriaeth Sifil

Soniodd sawl ymatebydd y dylai Priodas a Phartneriaethau Sifil gael yr un statws fel y berthynas agosaf **(5)**

Cododd ymatebwyr gwestiynau ynglŷn â rôl partner arfer gwlad a dylid ei hystyried. Un awgrym oedd y dylai'r berthynas agosaf gael ei enwi ar y gofrestr o bosibl. **(4)**

Teimlai grŵp bach na ddylai fod unrhyw effaith **(4)**

## Themâu Cyffredin Eraill

Codwyd y themâu canlynol mewn nifer o ymatebion:

- Cofnodi gwrthwynebiadau cyffredinol i'r cynigion **(44)**
- Methu â rhagweld y byddai'r cynigion yn achosi unrhyw broblemau i wahanol grwpiau nac yn cael unrhyw effaith arnynt **(38)**
- Datganiad cyffredinol bod yn rhaid i bob maes cydraddoldeb gael ei ystyried wrth roi'r cynnig ar waith **(24)**
- Gan fod pawb yn marw yn y pen draw nid yw materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb yn berthnasol i Roi Organau a Meinweoedd **(20)**
- Pobl nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd neu bobl sydd ond yn siarad ychydig o Saesneg neu nad yw Saesneg yn famiaith iddynt. Gallai hyn effeithio ar yr henoed, pobl anabl a phobl fyddar a mewnfudwyr neu ddiwylliannau lleiafrifol yng Nghymru **(12)**
- Mae pob un yn unigolyn sydd â'r hawl i ddewis **(8)**

## Rhan 2 – Cwestiwn 9 yn y Papur Gwyn a sylwadau eraill a gyflwynwyd

Cwestiwn 9 ar ffurflen ymateb y Papur Gwyn oedd:

> *Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol; os oes gennych chi sylwadau ar unrhyw faterion eraill sydd heb eu trafod yn benodol, mae croeso ichi eu cofnodi yma.*

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi ymatebion a gyflwynwyd i'r cwestiwn hwn, ynghyd â sylwadau gan y rhai nad oeddent wedi defnyddio'r ffurflen ac nad ydynt felly yn cyfeirio'n benodol at gwestiynau 1 i 8.

Roedd bron bob ymateb yn cynnwys rhai sylwadau y gellir eu crynhoi yma; hyd yn oed os mai dim ond datgan cefnogaeth i'r cynigion neu wrthwynebiad a wnaed. Mynegodd 642 o ymatebwyr gefnogaeth i'r cynigion ac roedd 482 yn eu gwrthwynebu.

Llofnododd 485 o ymatebwyr lythyrau unigol a oedd yn cynnwys union eiriad y llythyr a ddosbarthwyd gan ymgyrch Opt for Life. Mae'r llythyr yn darllen fel a ganlyn:

Anfonwyd y llythyr yn Saesneg ac mae wedi cael ei gyfieithu gan Lywodraeth Cymru

> *Croesawaf gamau rhagweithiol Llywodraeth Cymru i arbed bywydau ac rwyf yn llwyr gefnogi ei chynlluniau i newid y gyfraith ynglŷn â rhoi organau drwy gyflwyno 'system feddal o optio allan' yng Nghymru.*
>
> *Credaf y dylid tybio, o dan y system Optio Allan, fod trigolion Cymru yn rhoddwyr organau oni bai bod y canlynol yn gymwys:*
>
> - *Maent wedi ymuno â'r gofrestr Optio Allan*
> - *Nid oes modd eu hadnabod*
> - *Nid oes modd cadarnhau ble mae'r unigolyn yn byw*
> - *Gellir profi bod y sawl a fu farw yn dymuno fel arall ar ôl cysylltu â pherthnasau*
> - *Mae perthynas yn gwrthwynebu ar unwaith*
>
> *O dan y system 'feddal' o optio allan ni ddylai fod gorfodaeth. Credaf y bydd cofrestr yng Nghymru o'r bobl hynny sydd wedi gwrthwynebu yn unig (Opsiwn C, paragraff 56 o Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Roi Organau a Meinweoedd) yn sicrhau y gall y rhai sy'n gwrthwynebu gael sicrwydd bod eu barn wedi'i chofnodi'n ffurfiol.*

Anfonodd 35 o ymatebwyr e-bost gyda'r geiriad a ddosbarthwyd gan Sefydliad Prydeinig y Galon:

Anfonwyd yr e-bost yn Saesneg ac mae wedi cael ei gyfieithu gan Lywodraeth Cymru

> *Trawsblaniadau o'r galon yw'r cyfle gorau i gleifion y galon sy'n wael iawn oroesi yn yr hirdymor. Yn anffodus mae prinder rhoddwyr y galon ac organau eraill yn golygu bod llawer o bobl yn aros am flynyddoedd cyn cael trawsblaniad. Gwaetha'r modd, mae llawer o bobl yn marw wrth aros ar y rhestr, neu maent yn mynd rhy sâl i gael trawsblaniad. Yng Nghymru mae tua un person ar y rhestr aros ar gyfer trawsblaniad yn marw bob wythnos.*
>
> *Er bod 9 allan o bob 10 o bobl yn y DU yn cefnogi rhoi organau, mae llai na 3 o bob 10 wedi ymuno â'r gofrestr. Bydd system feddal o optio allan yn adlewyrchu dymuniadau'r rhan fwyaf o bobl Cymru yn well, yn cynyddu nifer yr organau sydd ar gael i'w rhoi ac, yn y pen draw, yn helpu i achub bywydau.*
>
> *Mae'n rhaid i'r system fod yn ddigon cadarn i sicrhau bod pawb sy'n dymuno optio allan yn cael cyfle i wneud hynny a bod mesurau diogelwch ar waith i sicrhau bod dymuniad unigolyn i optio allan yn cael ei barchu. Dylai fod modd i berthnasau agos wrthod rhoi caniatâd pan ofynnir iddynt.*
>
> *Croesawaf gamau rhagweithiol Llywodraeth Cymru i achub bywydau ac rwyf yn llwyr gefnogi ei chynlluniau i newid y gyfraith ynglŷn â rhoi organau drwy gyflwyno 'system feddal o optio allan' yng Nghymru.*

Ar wahân i'r rhain, roedd y rhan helaeth o sylwadau a gyflwynwyd yn ymwneud â dadleuon yn erbyn y polisi yn hytrach nad oeddent yn ymwneud â'r cwestiynau eraill a ofynnwyd.

Y thema a gododd amlaf mewn sylwadau o'r fath oedd y ddadl bod organau yn eiddo i'r unigolyn ac nid y wladwriaeth **(183)**, ynghyd â'r sylw y dylai rhoi organau fod yn rhodd oddi wrth yr unigolyn **(110)**. Roedd 115 o ymatebwyr yn dadlau y dylai'r adnoddau y bwriedid eu defnyddio ar gyfer system optio allan gael eu hailgyfeirio i wella ymwybyddiaeth o'r system gyfredol, neu eu defnyddio ar gyfer un o flaenoriaethau eraill y llywodraeth.

Rhybuddiodd 73 o ymatebwyr y byddent yn optio allan pe bai'r system newydd yn cael ei chyflwyno, ac o'r rhain dywedodd 29 eu bod ar y Gofrestr Rhoddwyr Organau ar hyn o bryd neu fod ganddynt Gerdyn Rhoddwr.

Cwynodd 64 o ymatebwyr ynglŷn â'r ffaith bod y Papur Gwyn yn ymgynghori ar fanylion gweithredu yn hytrach na'r egwyddor, teimlai 53 nad cydsyniad go iawn oedd “cydsyniad tybiedig” a'i fod yn anegwyddorol neu'n anfoesol, a chododd 51 amheuon ynghylch a fyddai'r cynigion yn darparu organau ychwanegol.

Y dadleuon eraill a fynegwyd gan fwy na phump o ymatebwyr oedd:

- Ofnau y byddai clinigwyr yn rhoi mwy o flaenoriaeth i'r angen am organau na gofal cleifion **(48)**
- Mae'r cynnig yn ymyrryd â Hawliau Dynol **(35)**

- Mae risg o gamgymeriadau os cyflwynir y system **(30)**
- Pryderon ynglŷn â'r diagnosis o farwolaeth **(21)**
- Dylai fod mwy o adnoddau gofal critigol **(18)**
- Beirniadaeth o'r cyhoeddusrwydd a roddwyd i'r ymgynghoriad **(18)**
- Yr her o sicrhau bod y boblogaeth gyfan yn ddigon ymwybodol **(18)**
- Roedd y Tasglu Rhoi Organau / Pwyllgor y Cynulliad wedi ystyried system optio allan ond nid oeddent yn cefnogi system optio allan **(14)**
- Nid yw'r profiad yn Sbaen yn cynnig dadl dros system optio allan **(14)**
- Mae'r cynnig yn golygu bod Cymru yn darparu organau ar gyfer gweddill y DU **(12)**
- Gallai'r cynnig arwain at organau yn cael eu gwerthu yn y pen draw **(12)**
- Datganiadau o gefnogaeth gan y rhai yr effeithir arnynt gan y rhestr aros neu drawsblaniadau **(11)**
- Bydd y system optio allan yn gwneud i'r rhai sy'n gwrthwynebu ymddangos yn hunanol **(11)**
- Mae'n amhriodol rhoi'r baich o optio allan ar bobl **(11)**
- Cefnogi system dewis gorfodol **(10)**
- Yn falch bod Cymru yn arwain y ffordd; gallai fod yn sbardun i weddill y DU **(10)**
- Bydd y rhai sy'n gwrthwynebu yn gallu optio allan **(9)**
- Nid yw'n briodol bod Cymru yn unig yn y DU yn cyflwyno system optio allan **(9)**
- Amau cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu yn y maes hwn **(8)**
- Datganiadau o wrthwynebiad gan y rhai yr effeithir arnynt gan y rhestr aros neu drawsblaniadau **(8)**
- Holi beth fydd yn digwydd pan na fydd aelod o'r teulu yn bresennol adeg y farwolaeth **(8)**
- Bydd yn rhoi mwy o straen ar deuluoedd **(8)**
- Dylai fod gwerthusiad cynhwysfawr **(8)**
- Ni ellir casglu bod y rhai nad ydynt ar y Gofrestr Rhoddwyr Organau yn cefnogi rhoi organau **(7)**
- Anghytuno â datganiadau arweinwyr eglwysig yn gwrthwynebu'r cynnig **(7)**

- Dylid cynnal refferendwm ar y mater hwn **(7)**
- Mae gan Sweden system optio allan a chyfradd rhoi organau isel **(6)**

## Rhan 3 – Crynodeb o'r cwestiynau a ofynnwyd mewn cyfarfodydd cyhoeddus

Cafodd pob un o'r 13 cyfarfod cyhoeddus ei arwain gan Dr Chris Jones, Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru. Agorwyd y cyfarfod drwy chwarae DVD yn dangos rhan o'r lansiad ynghyd â chyfweliadau â rhai o'r bobl yr effeithir arnynt gan drawsblannu organau. Yna rhoddodd Dr Jones neu Dr Grant Duncan, y Dirprwy Gyfarwyddwr gyflwyniad yn esbonio cynnwys y Papur Gwyn, ac wedyn agor y drafodaeth drwy ofyn am gwestiynau. Bu Arweinydd Clinigol ar gyfer Rhoi Organau neu Nyrs Arbenigol ar gyfer Rhoi Organau yn bresennol ym mhob un o'r digwyddiadau namyn un i ateb cwestiynau ynglŷn â'r broses gyfredol o gasglu a thrawsblannu organau.

Ystyriodd llawer o'r trafodaethau y ffordd y mae'r system gyfredol yn gweithio yn ogystal â'r newid arfaethedig.  Achubodd eraill a fu'n bresennol ar y cyfle i wneud datganiadau o blaid neu yn erbyn y cynigion fel mater o egwyddor, gan godi themâu tebyg yn aml i'r rhai a amlinellwyd yn Rhan 2 o'r adroddiad hwn.

Mae'r grid canlynol yn dangos y themâu a gododd mewn mwy nag un cyfarfod cyhoeddus, yn nhrefn amlder.   Fel yn achos yr adrannau cynharach, ni all hwn o reidrwydd gyfleu pob pwynt a wnaed mewn ffordd gynhwysfawr.

| **Mater** | **Aberafan** | **Merthyr** | **Cwmbrân** | **Llandrindod** | **Clunderwen** | **Aberystwyth** | **Bangor** | **Y Barri** | **Caerdydd** | **Wrecsam** | **Abertawe** | **Casnewydd** | **Llandudno** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr her o sicrhau bod y boblogaeth yn ddigon ymwybodol; difaterwch y cyhoedd; ymgyrch cyhoeddusrwydd yn hollbwysig; | ● | ● | | | ● | ● | | ● | | ● | ● | ● | ● |
| Beirniadaeth o gyhoeddusrwydd / amseriad y cyfarfod | ● | | ● | ● | ● | ● | | ● | | ● | ● | ● | |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| cyhoeddus | | | | | | | | | | | | | |
| Y wladwriaeth yn mynd ag organau yn hytrach na rhoi organau yn rhodd | ● | | | ● | ● | | ● | ● | | | ● | ● | ● |
| Tystiolaeth o fanteision trawsblaniadau i'r sawl sy'n cael un | | ● | ● | | ● | | | | | ● | ● | ● | ● |
| Pryderon ynglŷn â diagnosis o farwolaeth | ● | | | ● | ● | ● | ● | | | | ● | ● | |
| Gan fod y system gyfredol yn gweithio'n dda, pam newid / defnyddio adnoddau ar gyfer y system gyfredol | ● | | | ● | ● | | ● | | ● | | ● | ● | |
| Faint o organau ychwanegol a gâi eu rhoi o dan y polisi optio allan / a gâi digon o organau eu rhoi o dan y polisi optio allan? | ● | | ● | | ● | | | ● | | | ● | ● | |
| Bydd Cymru yn darparu organau ar gyfer gweddill y DU a thu hwnt | ● | | ● | | ● | | | | | ● | ● | ● | |
| Sefyllfa'r rhai sy'n marw yn Lloegr ar ôl i'r system optio allan gael ei chyflwyno | | ● | | ● | ● | ● | | | | ● | | | ● |
| Mae'n rhaid i unrhyw gofrestr fod yn syml / osgoi'r angen i bobl optio mewn ac optio allan / nid dim ond ar-lein / angen | | ● | ● | | ● | ● | | ● | | | | ● | |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| cofrestr | | | | | | | | | | | | | |
| A fydd modd i chi wrthwynebu rhoi rhai organau ond nid eraill? | | ● | | | ● | ● | ● | | | | ● | | ● |
| Beth sy'n digwydd os nad oes teulu yn bresennol ar adeg marwolaeth? | | | ● | | ● | ● | | ● | | ● | | ● | |
| Materion ynglŷn â galluedd meddwl ee anabledd dysgu, dementia | | ● | ● | | | ● | | | ● | | | ● | ● |
| A oes terfyn oedran uchaf ar gyfer rhoi organau? | | ● | ● | ● | | ● | | | | | | | ● |
| Cwestiynau ynglŷn â'r broses gyfredol ar gyfer casglu organau ee terfynau amser | | | | ● | ● | ● | | | | | ● | | ● |
| Angen integreiddio'n fwy â'r system addysg | | | ● | | | | | ● | | ● | | ● | ● |
| Angen ymgynghori â grwpiau crefyddol a grwpiau lleiafrifol megis pobl fyddar a'u cyrraedd | | | ● | | | ● | | ● | ● | | | | ● |
| Pwy biau'r corff ar ôl marwolaeth? | | ● | | | | | ● | | | ● | | ● | ● |
| Syndod/pryder y gall perthnasau o dan y system gyfredol ddiystyru dymuniadau rhywun sydd wedi dweud ei fod am roi organau | ● | ● | | | | | | | | ● | ● | | |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Os oes rhywun wedi optio allan, ni ddylai'r teulu ddiystyru hynny | ● | | | ● | | ● | | | | | ● | | |
| Cymru yn cyflwyno'r system hon er nad yw gweddill y DU yn gwneud hynny | ● | | | | ● | | | | | | ● | ● | |
| Materion ynglŷn â Hawliau Dynol | ● | | | | | | | ● | | | ● | ● | |
| Ystyried system dewis gorfodol (lle mae'n ofynnol o dan y gyfraith i ddinasyddion nodi eu dymuniad) | | | | ● | | | | | ● | | | ● | ● |
| Defnyddio cofrestr yr etholwyr i brofi preswyliaeth neu gysylltu â'r gofrestr optio allan | | ● | ● | | ● | | | | | ● | | | |
| Amheuon ynglŷn â mesurau diogelwch a rheolaethau / gall newid dros amser / dadl "blaen y gyllell" | | | ● | | | | ● | | ● | | ● | | |
| Risg o gamgymeriadau gweinyddol neu TG / diffyg ymddiriedaeth mewn TG | | | ● | | ● | | ● | | | | | ● | |
| Angen mwy o adnoddau gofal critigol / fel yn Sbaen | | | | | ● | | | | ● | ● | | | ● |
| Pryderon ynglŷn â phobl sydd mewn cyflwr | | | | | ● | ● | ● | | | | | | ● |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| disymud | | | | | | | | | | | | | |
| Nid caniatâd hyddysg mo "caniatâd tybiedig" fel y derbynnir yn gyffredinol | | | | | | | ● | ● | | | ● | ● | |
| Beth sy'n digwydd os byddwch yn marw gartref? | | | | | ● | | ● | | | | ● | | |
| Os bydd cyn lleied yn newid, pam bod angen newid y gyfraith? | | | | | | | ● | | | | ● | ● | |
| Pryder y gall anghenion y derbynnydd fod yn drech na gofal i'r rhoddwr | | | | | | | | | ● | | ● | | ● |
| Cwestiynau ynglŷn â'r system cardiau rhoddwyr / Cofrestr Rhoddwyr Organau bresennol | | ● | | | | | | | ● | | ● | | ● |
| Beth sy'n digwydd os dengys yr ymgynghoriad wrthwynebiad i'r egwyddor / nid ymgynghoriad ynglŷn â'r egwyddor | | ● | | | | | | ● | | | | ● | |
| Diffyg tystiolaeth y bydd newid deddfwriaethol yn arwain at gyfraddau rhoi uwch | | | | | ● | | | ● | | | | ● | |
| Dylid cynnal refferendwm ar y mater hwn | | | | ● | | | | ● | | | | ● | |
| Rhaid i deuluoedd gael gwybodaeth lawn pan ofynnir iddynt am | ● | | | | | | | | | | ● | ● | |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| gydsyniad | | | | | | | | | | | | | |
| Unrhyw effaith ar drefniadau angladdol? | | ● | | | | | | | | | | | ● |
| Risg o organau yn cael eu gwerthu | | ● | | ● | | | | | | | | | |
| Cwestiwn ynglŷn â defnyddio organau at ddibenion ymchwil | ● | | | | | | | | | | | ● | |
| Preswylwyr dros dro megis myfyrwyr | ● | | | | | | | | | | ● | | |
| Cyflwyno opsiwn newydd i bobl - i optio allan | | | | ● | | | | | | | | | ● |
| Roedd Tasglu Rhoi Organau'r DU wedi ystyried cydsyniad tybiedig ac nid oedd wedi'i gefnogi | | | | | | | ● | | | | | ● | |
| Mae'r Papur Gwyn yn aneglur ynglŷn â rôl y teulu | | | | | ● | | ● | | | | | | |
| Yn cefnogi cynnig ond yn poeni y caiff pobl eu cythruddo | | | | | | | | | | ● | | | ● |
| Nid yw Sbaen yn cynnig dadl o blaid system optio allan | | | ● | | | | | | | ● | | | |
| Mae system optio allan yn caniatáu i feddygon gasglu organau, nid yw'n gorchymyn iddynt wneud hynny | | | | | | | | | | ● | | | ● |
| Angen addysgu staff | | | | | | | | | | ● | | | ● |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| clinigol | | | | | | | | | | | | | |
| Gall Cymru fod yn sbardun i weddill y DU | | | | | ● | | | | | ● | | | |
| Problemau o ran crefyddau nad ydynt yn tueddu i roi organau | | | | | | | | | | ● | | | ● |
| Ai ateb parhaol ynteu ateb dros dro yw Rhoi Organau h.y. a fydd triniaeth bôn-gelloedd yn helpu i drin pobl y mae un o'u horganau wedi methu. | | | | | ● | | | ● | | | | | |

## Atodiad A – Rhestr o Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Caiff y ddogfen hon ei hailgyhoeddi gyda rhestr o ymatebwyr i'r ymgynghoriad erbyn diwedd mis Mawrth 2012. Y rheswm dros yr oedi yw bod angen sicrhau bod pob un sy'n dymuno gwneud cais i'w ymateb gael ei gyhoeddi'n ddienw yn cael amser rhesymol i wneud hynny.

## Atodiad B – Rhestr o'r Cyfarfodydd Cyhoeddus

Dydd Mercher, 16 Tachwedd - Aberafan
Dydd Iau, 17 Tachwedd - Merthyr Tudful
Dydd Iau, 17 Tachwedd – Cwmbrân
Dydd Iau, 24 Tachwedd - Llandrindod

Dydd Llun, 5 Rhagfyr – Clunderwen
Dydd Mawrth, 6 Rhagfyr – Aberystwyth
Dydd Iau, 8 Rhagfyr – Bangor
Dydd Mawrth, 13 Rhagfyr - Y Barri
Dydd Mawrth, 13 Rhagfyr – Caerdydd
Dydd Mawrth, 20 Rhagfyr – Wrecsam

Dydd Mawrth, 17 Ionawr - Abertawe
Dydd Mercher, 18 Ionawr - Casnewydd
Dydd Mercher, 25 Ionawr - Llandudno

## Atodiad C – Cyhoeddusrwydd i Ddigwyddiadau Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Papur Gwyn ar Roi Organau

Cafodd pob cyfarfod cyhoeddus ei hysbysebu yn y ffyrdd canlynol:

- Cyhoeddwyd Datganiadau i'r Wasg yn benodol i roi gwybod am y cyfarfod ar ddechrau'r gyfres ym mis Tachwedd ac unwaith eto pan gyhoeddwyd cyfarfodydd ychwanegol ym mis Ionawr. Cyhoeddwyd hysbysiadau unigol i'r Wasg hefyd cyn pob cyfarfod. O ganlyniad cafodd erthyglau eu cyhoeddi yn y Western Mail, Daily Post a'r wasg leol.
- Cyfeiriwyd at y cyfarfodydd hefyd mewn hysbysiadau eraill i'r wasg a rhoddwyd sylwadau mewn cysylltiad â'r ymgynghoriad ar roi organau.
- Radio lleol - Mae'r Cyfarwyddwr Meddygol wedi cynnal cyfweliadau â gorsafoedd radio lleol.
- Gwefan Llywodraeth Cymru - roedd dolenni i'r ymgynghoriad yn ymddangos yn rheolaidd ar yr hafan. Roedd hysbysiad i'r wasg ynglŷn â chyfarfodydd cyhoeddus hefyd yn rhan o newyddion Llywodraeth Cymru.
- Safleoedd rhwydwaith cymdeithasol Llywodraeth Cymru - Facebook a Twitter.
- Gwefannau a safleoedd rhwydwaith cymdeithasol y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned.
- Anfonodd y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned bosteri i bob lleoliad i'w dosbarthu yn yr ardal leol.
- Rhoddwyd manylion i aelodau o'r Cynghorau Iechyd Cymuned i'w cyhoeddi yn eu cyfarfod a'u cynnwys mewn cylchlythyrau.
- Anfonwyd gwybodaeth at randdeiliaid Llywodraeth Cymru yn y sector cyhoeddus (yn cynnwys Arweinwyr Clinigol ar gyfer Rhoi Organau a Nyrsys Arbenigol ar gyfer Rhoi Organau) a sefydliadau yn y trydydd sector i'w dosbarthu'n ehangach.

Yn sgil presenoldeb siomedig yn y pedwar digwyddiad cyntaf, ychwanegwyd y dulliau cyhoeddusrwydd canlynol:

- Datblygwyd posteri ychwanegol i hysbysebu'r digwyddiadau ym mis Rhagfyr a mis Ionawr. Fe'u dosbarthwyd i lyfrgelloedd a meddygfeydd ym mhob ardal.
- Cysylltwyd â Chyfathrebwyr gwasanaethau cyhoeddus drwy rwydwaith 'Comms Cymru' a gofynnwyd iddynt ledaenu gwybodaeth drwy eu rhwydweithiau lleol.
- Hysbysebwyd y ffaith bod darpariaeth ar gyfer pobl fyddar yn y digwyddiadau yn Aberystwyth, Caerdydd a Wrecsam.

Hysbysebwyd y digwyddiadau hynny gan Deaf Access Cymru drwy ei ffrydiau ar Twitter a Facebook a hysbysodd Cymdeithas Fyddar Prydain ei haelodau drwy e-bost.

- Anfonodd Llywodraeth Cymru neges Twitter at gefnogwyr clwb pêl-droed Wrecsam i hysbysebu'r cyfarfod cyhoeddus yn Wrecsam.
- Gofynnwyd hefyd i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol hysbysu eu staff am y cyfarfodydd drwy eu mewnrwydi.

Ym mis Ionawr, mewn ymgais i sicrhau bod mwy o bobl yn dod

- dosbarthodd swyddogion Llywodraeth Cymru bosteri â llaw yng Nghasnewydd, Abertawe a Llandudno i archfarchnadoedd a siopau yn yr ardal leol.
- Anfonwyd posteri dros yr e-bost at bob cyflogwr mawr yn y sector cyhoeddus ym mhob ardal er mwyn hysbysu staff am y cyfarfodydd.

**Y sylw yn y cyfryngau:**

- Anfonwyd hysbysiadau i'r wasg i gyhoeddiadau lleol a chenedlaethol perthnasol a'r cyfryngau darlledu ar gyfer pob digwyddiad (ceir rhestr isod)
- Cafodd y cyfryngau eu gwahodd i ddod i ddigwyddiadau a bu sawl newyddiadurwr yn bresennol.
- Cafwyd sylw rheolaidd yn y Western Mail a Daily Post yn ogystal â phapurau newydd rhanbarthol
- Cynhaliodd y Cyfarwyddwr Meddygol gyfweliadau â phob gorsaf radio fawr ledled Cymru, ar wahân i Heart FM.
- Gofynnwyd i Radio Wales sôn am y cyfarfodydd lle bynnag y bo modd - soniodd Roy Noble am y cyfarfodydd ym Merthyr a Chwmbrân.
- Yn ogystal â'r sylw yn y wasg genedlaethol a rhanbarthol, cyn ac ar ôl y digwyddiadau, cafwyd darllediad byw ar BBC Wales Today o'r digwyddiad yn Abertawe ar 17 Ionawr.

**Y cyfryngau a gafodd fanylion am bob digwyddiad:**

BBC Cymru Wales
ITV Cymru
Radio Wales/Radio Cymru
Real Radio
Western Mail
Daily Post
Cymdeithas y Wasg
Golwg
Bridge FM

**Cyfryngau newyddion rhanbarthol a wahoddwyd:**

**Aberafan**
Afan FM
Neath Guardian
SW Evening Post
South Wales Guardian
Tribune

**Cwmbrân**
Pontypool Free Press
South Wales Argus
Gwent Gazette
Abergavenny Chronicle
Chepstow Free Press
Monmouthshire Beacon
Monmouthshire Free Press
Capital FM

**Casnewydd**
South Wales Argus
Gwent Gazette
Abergavenny Chronicle
Chepstow Free Press
Monmouthshire Beacon
Monmouthshire Free Press
Capital FM

**Abertawe**
Radio Tircoed
South Wales Evening Post
Swansea Bay Radio
Swansea Sound
The Wave
Carmarthen Journal
Llanelli Star
Radio Carmarthenshire
Scarlet FM
South Wales Guardian

**Caerdydd**
South Wales Echo

**Y Barri**
Barry and District News
South Wales Echo
Glamorgan Gazette
Penarth Times

**Clunderwen**
County Echo
Milford Mercury
Western Telegraph
Observer Series
Radio Pembrokeshire
Tivyside Advertiser

**Aberystwyth**
Cambrian News
County Echo
Tivyside Advertiser
Radio Ceredigion

**Llandrindod**
Border Counties Advertiser
Brecon and Radnor Express
County Times
Radio Hafren
Radio Shropshire
Shropshire Star

**Bangor**
Anglesey Mail
Bangor and Anglesey Mail
Bangor Chronicle
Caernarfon Herald
Cambrian News
Champion 103
Coast 96.3 FM
Holyhead and Anglesey Mail
North Wales Chronicle
North Wales Pioneer

**Llandudno**
Abergele Visitor
Rhyl/Prestatyn Journal
Champion FM
North Wales Pioneer
North Wales Weekly News
Tudno FM

**Merthyr**
Merthyr Express
Cynon Valley Leader
Rhondda Leader

**Wrecsam**
Calon FM
Wrexham Leader
Wrexham Mail
Flintshire Leader
Flintshire Chronicle
Mold and Buckley
North Wales Pioneer
Caernarfon and Denbigh Herald
Denbighshire Free Press
Rhyl and Prestatyn Visitor
Rhyl Journal

## Atodiad Ch – Rhestr o'r Sefydliadau a gafodd eu hysbysu am yr Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn

### Y GIG

Byrddau Iechyd Lleol/ Ymddiriedolaethau'r GIG

- BILl Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
- BILl Aneurin Bevan
- BILl Betsi Cadwaladr
- BILl Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- BILl Cwm Taf
- Hywel Dda
- Powys
- Ymddiriedolaeth GIG Felindre
- Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- WHSCC

Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG

Arweinwyr Clinigol ar Roi Organau ym mhob BILl

Nyrsys Arbenigol ar gyfer Rhoi Organau ym mhob BILl

Canolfannau Trawsblannu

Timau Casglu

Rhwydwaith Arennau Cymru Gyfan

Rhwydwaith Gofal Critigol

Rhwydweithiau'r Galon

Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned

### Cyrff Proffesiynol

Coleg Brenhinol y Llawfeddygon

Coleg Brenhinol y Ffisigwyr

Cymdeithas Gofal Dwys Cymru

Cymdeithas Trawsblannu Prydain.

Coleg Meddygaeth Frys

Cydffederasiwn y GIG yng Nghymru

Coleg Brenhinol yr Anaesthetyddion

Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol

Coleg Nyrsio Brenhinol

Coleg Brenhinol y Pediatryddion ac Iechyd Plant

Coleg Brenhinol y Patholegwyr

Coleg Brenhinol y Bydwragedd

Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr

Cymdeithas Gofal Dwys Cymru

Cymdeithas Gofal Dwys Pediatrig

Cyfadran Meddygaeth Gofal Dwys

Cymdeithas Feddygol Prydain

Academi'r Colegau Brenhinol

Coleg Brenhinol y Radiolegwyr

**Y Sector Gwirfoddol**

Sefydliad Aren Cymru

Cymdeithas Cleifion Arennau Cymru

Transplant 2013

Diabetes UK

Sefydliad Prydeinig y Galon

Epilepsy Action

Ymddiriedolaeth Mêr Esgyrn Anthony Nolan

Patient Concern

Age Concern Cymru

Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru

Plant yng Nghymru

Cynghrair Niwrolegol Cymru

Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint

Ymddiriedolaeth Ffibrosis Systig

Ymddiriedolaeth Afu/Iau Prydain

Live Life then Give Life

RNIB

Anabledd Cymru

Cymdeithas Rhoi Organau Prydain

Kidney Research y DU

Ffederasiwn Cenedlaethol yr Arennau

Cymdeithas Haemoffilia

Cymdeithas y Cleifion

Cymdeithas Dyneiddwyr Prydain

Rhwydwaith Teuluoedd Rhoddwyr

**Sefydliadau Ffydd a Sefydliadau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig**

Cytûn

Archesgob Cymru

Yr Eglwys Rufeinig Gatholig

Cynghrair Efengylaidd Cymru

Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru

Ffydd Baha'I

Cyngor Bwdhaeth Cymru

Teml Shree Swaminarayan

Teml Hindŵ yr Eglwys Newydd

Iddewiaeth Ddiwygiedig

Cyngor Mwslimiaid Cymru

ABCD Cymru – Mynediad i Blant Du ag Anableddau

Canolfan Gymunedol Affricanaidd

AWEMA - Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan

Prosiect Neville Street Banardos

BAWSO - Black Association of Women Step Out

Rhwydwaith Sector Gwirfoddol i Bobl Groenddu Cymru (BVSNW)

Prosiect Sipsiwn a Theithwyr Caerdydd

Gwasanaeth Addysg i Deithwyr Caerdydd

Tîm Cefnogi Ieuenctid Ethnig

Rhwydwaith Cydraddoldeb Gogledd Cymru

Race Equality First

SEWREC

Cymdeithas Integreiddio Somali

Cymdeithas Flaengar y Somaliaid

Cyngor Cydraddoldeb Hiliol De-ddwyrain Cymru

Cyngor Cydraddoldeb Hiliol Bae Abertawe

Tai Pawb

Cyngor Cydraddoldeb y Cymoedd

Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru

Cyngor Ffoaduriaid Cymru

**Y Llywodraeth ac Asiantaethau'r Llywodraeth**

Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol

Yr Adran Iechyd

Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon

Llywodraeth yr Alban

Swyddfa Cymru

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

**Sectorau Eraill**

Crwneriaid

Heddluoedd Cymru

Undebau Llafur

- PCS
- Undeb Unite
- TUC Cymru
- Undeb y GMB

Comisiynydd Plant Cymru

Comisiynydd Pobl Hŷn

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru

Aelodau o Grŵp Cyfeirio Arbenigol Llywodraeth Cymru ar Roi Organau a Meinweoedd

Grŵp Gweithredu Rhoi Organau Cymru